Babell Y Garn Madog Nasareth Pen-llwyn Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Pen-llwyn Nasareth Madog Garn Babell

**Cyfres newydd, rhif 68** **Haf 2024**



‘Gwyddai y gallai fentro drwy’r eithin …
a chyrraedd pen ei thaith yn ddiogel’

## Llwybrau'r eithin

Gwireb: dywediad bachog sy'n cyfleu llawer.

Rwy'n credu mai Sarnicol lwyddodd i gyfleu un o wirioneddau mawr bywyd yn ei gwpled epigramatig:

> Oni bai am fuwch a tharw
> Ni fuasai buwch na tharw.

A phwy a wad wirionedd hynny?

A dyma wireb a fathwyd gan L. P. Hartley yn ei nofel, *The go between* (1953): 'Gwlad ddieithr yw'r gorffennol; maen nhw'n gwneud pethau'n wahanol yno.'

Am y rheswm hwnnw fe fyddaf yn hoffi holi pobl oedrannus am eu hatgofion cynharaf. Neu eu holi'n benodol beth yw eu hatgof cynharaf un? Yn anorfod, bydd eu hatebion yn ein cludo yn ôl i fyd sydd wedi hen ddiflannu ac i gymdeithas nad yw'n bodoli mwyach.

Nid hiraethu am orffennol euraid a wnawn wrth olrhain y fath hanesion, ond ceisio dirnad a wnawn gymaint sydd wedi newid yn ystod oes yr unigolyn sy'n adrodd yr hanes. Meddyliwch am foment am gynnydd gwybodaeth a'r darganfyddiadau gwyddonol, am ddyfeisgarwch peirianyddol ac am allu technolegol a'u heffeithiau ar ein bywydau beunyddiol – am y cyfan a ddatblygwyd yn ystod y ganrif ddiwethaf.

***

Mewn sgwrs gyda'r ddiweddar Mrs Mary Thomas, Dolgelynen, Llandre, fe'i holais am ei hatgof cynharaf.** Soniodd hithau am gael ei magu fel yr unig blentyn yng Nghwm Ceulan ac am dreulio pob wythnos o dymor yr ysgol gyda'i theulu ehangach yn Nhal-y-bont ac yn ddiweddarach yn Aberystwyth.

Adroddodd hefyd sut yr hoffai gerdded o'i chartref, a hithau'n dal yn ferch fach, i dŷ ei thad-cu. Disgrifiai sut yr arferai ddilyn lôn gert gyfarwydd am y gwyddai nad âi ar goll wrth gadw ati. Ni fentrai adael y llwybr amlwg er bod llwybr byrrach ar gael. Ond byddai hynny'n golygu torri drwy'r eithin oedd yn tyfu'n dalach na hi.

Ond os deuai'r ci defaid gyda hi yn gwmni ffyddlon ar y daith, yna gwyddai y gallai fentro drwy'r eithin ac y gallai groesi drwy'r perthi pigog a chyrraedd pen ei thaith yn ddiogel.

***

Weithiau, yn ystod taith ein bywydau cawn rodio'r llwybr sydd o'n blaenau'n hyderus gan wybod fod cwmni gennym am ran o'r daith, o leiaf. Yn araf bach, byddwn yn colli cyfoedion bore oes a chyfeillion ein hieuenctid.

Dro arall byddwn yn rhodio'n hyderus am ein bod yn cerdded ar hyd llwybr a gafodd ei dramwyo gan filoedd a aeth o'n blaenau. Bryd hynny bydd ein hiaith, ein diwylliant, a gwerthoedd ein cymunedau'n palmantu ein llwybrau.

Gwyddom oll, o brofiad, sut y gall y llwybr newid yn sydyn. Gall fod yn garegog neu'n gorsiog, yn llithrig a serth. Bryd hynny, bydd angen gwydnwch, dyfalbarhad a phenderfyniad i ddal ati.

Ni fydd unrhyw un ohonom chwaith yn medru osgoi dyffrynnoedd tywyll ein llwybrau, na'r croeswyntoedd milain a ddaw i'n rhan i'n llorio.

Yn anorfod, bydd y llwybr yn culhau i bob un ohonom. Daw 'drain eithin' sy'n fwy na ni i'n crafu a'n pigo a'n creithio cyn i ni gyrraedd adre. Bryd hynny, bydd ein hymddiriedaeth yn yr Un a ddywedodd wrthym na fyddai'n cefnu arnom nac yn ein gadael yn amddifaid yn parhau i'n tywys yn ddiogel i'r cartref yr ydym yn dyheu amdano.

A gwyddom y medrwn ymddiried pob cam o'r daith i'r Arglwydd Iesu Grist am ei fod yntau wedi gwasgu drwy angau ein hun i agor llwybr bywyd i'r rhai sy'n ei ganlyn.

Duw a drugarhao wrthym drwy ganiatáu i ni adnabod y rhodd yn Iesu Grist na allwn ei haeddu, i brofi o'i gariad di-ben-draw a chwmni dyddiol ei Ysbryd Glân i'n tywys hyd nes y cawn ei weld fel y mae.

*Watcyn James*

(**Cafwyd caniatâd i ddefnyddio'r hanesyn yn y rhifyn hwn o 'Gair o'r Garn')

## Ymddeoliad ein Gweinidog

Cynhelir Gwasanaeth Gollwng a Chyflwyno Tysteb
i'n Gweinidog, y Parch. Ddr R. Watcyn James,
bore Sul, 21 Gorffennaf,
yng Nghapel y Garn am 10 o'r gloch.



Bydd cinio i ddilyn yng Nghrefftau Pennau –
enwau a'r dewis o fwyd i ysgrifennydd eich eglwys
erbyn **10 Gorffennaf**, os gwelwch yn dda.

Bydd ein Gweinidog yn ymddeol o'i ddyletswyddau
fel bugail Gofalaeth y Garn ddiwedd Awst,
a dymunwn bob bendith iddo ef a Lowri yn y dyfodol.

**Manylion Cyswllt y Gweinidog:**
Y Parchedig Ddr R. Watcyn James
Eryl, Capel Bangor, Aberystwyth, SY23 3LZ
01970 880615
ebost: watcyn.james@ebcpcw.cymru



## Tudalen y Plant – 'Ffrindiau Iesu'

Un diwrnod, wrth iddo gerdded ar lan môr Galilea, gwelodd Iesu ddau frawd yn pysgota. Simon neu Pedr (dyna roedd pawb yn ei alw!) a'i frawd, Andreas, oedd yno. Pysgotwyr oedden nhw, ac roedden nhw wrthi'n taflu rhwyd i'r dŵr. Dyma Iesu'n galw arnyn nhw, 'Dewch gyda mi. Dewch i'm helpu gyda fy ngwaith, yn lle pysgota.' Stopiodd Pedr ac Andreas bysgota, gadael eu rhwydi a dilyn Iesu.

Wrth iddo gerdded yn ei flaen, gwelodd Iesu ddau frawd arall – Iago ac Ioan. Roedden nhw'n paratoi i fynd allan i bysgota yn eu cwch. Dywedodd Iesu wrthyn nhw, 'Dewch gyda mi. Dewch i'm helpu gyda fy ngwaith, yn lle pysgota.' Gadawodd Iago ac Ioan eu cwch a dilyn Iesu. Dyma ddisgyblion cyntaf Iesu.

Ar ôl darllen y stori gyda'ch gilydd, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn fel teulu:

1. Wyt ti'n dilyn rhywun arbennig ar Youtube neu wyt ti'n dilyn tîm pêl-droed?
2. Pam a sut wyt ti'n eu dilyn?
3. Os byddet ti'n Pedr neu'n Andreas, beth fyddet ti wedi ei wneud os byddai Iesu wedi galw arnat ti i'w ddilyn?
4. Sut wyt ti'n meddwl y gallwn ni ddilyn Iesu heddiw?

(Cyhoeddwyd yn *Clwb Plant drwy'r Post*)

## Y Parchedig Elwyn Pryse – 70 mlynedd ers ei ordeinio

Yn Sasiwn y De ar 1 Mai, cafodd y Parchedig Elwyn Pryse ei longyfarch ar ddathlu 70 mlynedd ers ei ordeinio i'r weinidogaeth. Aeth Marian i gael ychydig o hanes troeon yr yrfa.

MBH: Llongyfarchiadau calonnog iawn ar gyrraedd y garreg filltir arbennig hon! Rhowch ychydig o hanes eich cefndir a'ch magwraeth.

EP: Cefais fy magu ar aelwyd Gristionogol ym mryniau Ysbyty Ystwyth yng nghefn gwlad Ceredigion. Fy mam oedd y dylanwad mwyaf arnaf yn y cartref, a hithau wedi byw drwy ddiwygiad 1904. A byddwn innau'n mynychu'r ysgol Sul yn Ysbyty Ystwyth yn gyson.

Roedd yr ardal yn ddylanwad mawr arnaf hefyd – ardal ddiwylliedig iawn, gyda 'socials' yn cael eu cynnal yn gyson yn y capel. Roeddwn yn hoff iawn o adrodd, ac enillais fy nghwpan cyntaf yn y gamp pan oeddwn yn saith oed. Uchafbwynt fy ngyrfa yn y maes adrodd, mae'n debyg, oedd ennill yn y Genedlaethol yng Nghaerffili yn 1950.

Yn drist iawn, collais fy rhieini'n ifanc, ond cefais ofal arbennig gan fy chwaer, Bertha, a'i gŵr, Ceredig, a fu'n garedig iawn wrthyf.

MBH: Pryd a sut y gwnaethoch chi ymdeimlo â galwad i'r weinidogaeth?

EP: Es i ymlaen o'r ysgol gynradd i Ysgol Sir Tregaron, a dod dan ddylanwad yr athrawon yno. Mae'n rhyfeddol i mi lwyddo i basio arholiadau'r Central Welsh Board o gwbl gan imi golli tri mis o ysgol ychydig cyn yr arholiadau. Oherwydd eira mawr gaeaf 1947 doedd hi ddim yn bosib imi gyrraedd yr ysgol. Ond fe ddes i drwyddi!

Pan oeddwn i tua 17 oed, dywedodd y Prifathro, y Prifardd D. Lloyd Jenkins, wrthyf, 'Y weinidogaeth i chi, Elwyn!' Ac felly y buodd hi yn fy hanes. Fuodd yna ddim edrych yn ôl wedyn.

Ac rwy'n falch o ddweud y gallaf olrhain deugain aelod o'r teulu sydd wedi'u hordeinio.

MBH: Ble gawsoch chi eich hyfforddi ar gyfer y weinidogaeth, a pha brofiadau yno sydd wedi aros yn y cof?

EP: O ysgol Tregaron es i i Goleg Trefeca am ddwy flynedd jyst i ddysgu Groeg. Wel, dyna i chi wastraff! Wedyn, ymlaen i'r Coleg Diwinyddol yn Aberystwyth.

Un profiad a gofiaf yn dda o'r cyfnod hwn oedd y 'streic fawr'. Cafodd criw ohonom ein cyhuddo – ar gam – gan y Prifathro, W. R. Williams, o rwygo soffa yr oedd wedi'i chael gan y Tsar o Rwsia, fe honnid. Bu'n dipyn o helynt, ac arweiniodd hyn at streic yn ein plith ni'r myfyrwyr!

I agor tymor Cymdeithas y Tabernacl, Aberystwyth, un flwyddyn, yr oedd noson lawen wedi'i threfnu, a minnau wedi cael gwahoddiad i adrodd yno. Roedd merch ifanc o'r enw Tegwen yno'n unawdydd, a dyma'i hebrwng adref ar ddiwedd y noson. A dyna ddechrau perthynas a fu'n allweddol i mi yn fy ngweinidogaeth. Cawsom ddeugain mlynedd o briodas hapus, a bûm yn ffodus o gael Tegwen yn gefn mawr i mi drwy gydol yr amser nes imi ei cholli yn 2013.

MBH: Pa ardal a'ch denodd i weinidogaethu ynddi fel gweinidog ifanc?

EP: Yn 23 oed, cefais fy ordeinio yn Sasiwn y De yng Nghaerfyrddin yn 1954 – a dwi'n meddwl fy mod yn un o'r rhai ieuengaf erioed i gael fy ordeinio. Yn ardal Wrecsam y dechreuais fy ngweinidogaeth, a hynny ar eglwysi Rhosllannerchrugog, Johnstown a Rhiwabon.

Roedd y flwyddyn 1954 wedi'i henwi'n 'Flwyddyn y Deffro' gan ei bod hanner can mlynedd ar ôl Diwygiad 1904. Ond siom a gafwyd ar ddiwedd y flwyddyn, pan welwyd nad oeddem fel Cyfundeb wedi llwyddo i gynyddu nifer yr aelodau. Yn wir, roeddem wedi colli 2,000 o aelodau yn ystod y flwyddyn – tuedd sydd wedi parhau byth ers hynny.

MBH: Ond fe wnaethoch chi symud i sawl ardal, cyn dod yn ôl i Geredigion ar ddiwedd eich gweinidogaeth ac ymddeol yno.

EP: Do, roedd tynfa yn ôl i gefn gwlad, ac ar ôl pedair blynedd a hanner symudais i Lanrhaeadr-ym-Mochnant. Bûm yn hapus yn y ddwy ofalaeth, cyn symud wedyn i Lanymddyfri, lle treuliais ddeng mlynedd dedwydd iawn, ac yno y ganed ein mab, Maldwyn.

Yna, symud i'r Borth yng Ngheredigion a gweinidogaethu ar ofalaeth y Garn hefyd yn nes ymlaen, pan unwyd y ddwy ofalaeth. Ar gyngor meddygol, fe wnes i ymddeol yn gynnar, yn 62 oed, ond fe ddaliais i bregethu hyd at 2020.



MBH: Beth yw'r newidiadau mwyaf rydych chi wedi'u gweld o ran y dystiolaeth Gristnogol yng Nghymru yn ystod y 70 mlynedd diwethaf hyn?

EP: Pan oeddwn yn dechrau fy ngweinidogaeth, roedd 13 o weinidogion yn y Rhos, pump ohonom yn weinidogion i'r Hen Gorff. Ond mae yna ddirywiad cyson wedi bod ers hynny.

Yn ystod y cyfnod hwnnw, teimlaf ein bod wedi gweld cynnydd mewn bydolrwydd. Mae dau beth wedi digwydd ochr yn ochr: wrth i'r capeli wagio, mae'r carchardai'n gorlenwi.

MBH: Beth oedd yn rhoi'r mwyaf o bleser i chi yn eich gwaith fel gweinidog?

EP: Y gwaith bugeilio a gweithio gyda'r ieuenctid. Yn wir, fe wnes i fwynhau'r weinidogaeth yn fawr iawn, ac fe fyddwn i'n barod iawn i wneud y gwaith eto.

MBH: Pa fath ddyfodol sydd i Gristnogaeth yng Nghymru, yn eich barn chi?

EP: Rwyf yn ymddiddori yn hanes yr eglwys Gristionogol, a sylwaf fod cyfnodau o drai yn dilyn llanw wedi bod ar hyd y canrifoedd. Rwy'n obeithiol am ddyfodol y grefydd Gristionogol, a'r hyn sy'n rhoi cysur i mi yw'r geiriau 'Canys Eiddot **Ti** yw'r Deyrnas'. Rwy'n hyderus y bydd Duw eto'n ein hailfywhau.

MBH: Diolch yn fawr iawn i chi am eich atebion ac am eich gweinidogaeth gyfoethog, a phob dymuniad da i chi.

## Gwasanaeth cyflwyno medalau Gee

Ddydd Sul, 19 Mai, ar brynhawn braf o haf, cynhaliwyd gwasanaeth arbennig yng Nghapel Seion. Croesawyd pawb yn gynnes gan Mrs Ina Tudno Williams, ysgrifenyddes y capel, cyn iddi drosglwyddo'r awenau i'r gweinidog, y Parch. Ddr Watcyn James. Pwysleisiodd yntau gyfraniad gwerthfawr yr ysgol Sul wrth i bobl ymgynnull i astudio'r Gair, gan ein hatgoffa o'r emyn 'Am yr ysgol rad Sabothol' ac mai dyna lle y ceir 'yr addysg orau, / Addysg berffaith llyfr y llyfrau.'

Yn y rhannau arweiniol darllenwyd gan ddau o ieuenctid capeli Capel Seion a Phenllwyn, sef Celt (Salm 19) a Tomos (1 Pedr 1:10–12). Cyflwynwyd emyn gan blant Ysgol Sul Capel Seion.

Cafwyd cyfarchiad gan Dr Rhidian Griffiths, Llywydd Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro. Clywsom ganddo ychydig am Thomas Gee, y cyhoeddwr llyfrau ac fel y bu iddo gyhoeddi'r llyfr emynau cydenwadol Cymraeg cyntaf.

Y Parch. Aled Davies, Cyfarwyddwr y Cyngor Ysgolion Sul, a roddodd beth o hanes y medalau Gee a gyflwynir yn flynyddol er cof am Mr a Mrs Thomas Gee, Dinbych, i gydnabod ffyddlondeb i'r ysgol Sul. Cafwyd esiampl ganddo o'r modd y gall y seiliau cadarn a osodir yn yr ysgol Sul ddylanwadu ar ein bywyd a'n gwaith.

Rhoddwyd y fraint o gyflwyno'r medalau i'r Parch. Aled Davies a'r Parch. Ddr Watcyn James. Yna, cafwyd cyfarchiad gan Mr Alwyn Hughes, Cadeirydd Gofalaeth y Garn.

Braf oedd gweld y capel yn gyfforddus lawn, gyda theulu a ffrindiau'r saith a dderbyniodd fedal Gee wedi dod o bell ac agos. Yn dilyn y gwasanaeth cafwyd cyfle i sgwrsio dros gwpanaid o de a lluniaeth.

*Delyth Davies*



Gwelir yn y llun uchod (o'r chwith i'r dde) y saith a dderbyniodd y fedal yn yr oedfa.

Cyfrannodd **Magdalen (Mags) Davies** yn llawn dros y blynyddoedd i fywyd Capel Seion a'r ysgol Sul lle mae'n aelod ffyddlon. Bu'n athrawes yno ac y mae hyd heddiw yn cyfrannu'n llawn i drafodaethau dosbarth yr oedolion. Treuliodd ei hoes yng nghysgod enwau Beiblaidd. O'i geni ym Methania treuliodd ran helaethaf ei hoes yn ardaloedd Moreia a Chapel Seion! Bu'n gyrru ambiwlans am 15 mlynedd cyn ymroi i fod yn nyrs am weddill ei gyrfa. Bu'n aelod o barti canu'r capel ac mae'n ymddiddori mewn gwahanol agweddau ar ddiwylliant y fro.

O ardal Tal-y-bont y daw **Eirlys Jones** yn wreiddiol, ond bu'n mynychu Ysgol Sul Capel Seion ers 1965 – pan nad oedd galwadau gwaith neu heriau bywyd yn rhwystro hynny. Ni fyddwch yn siarad ag Eirlys am yr ysgol Sul heb iddi gyfeirio at ei mam-gu ('mam fach') a'i dylanwad arhosol arni. Bydd yn sôn sut y manteisiodd ei mam-gu ar yr addysg a geid yn yr ysgol Sul a'r cyfleoedd addysgol a ddaeth i'w rhan mewn cyfnod pan oedd cyfleoedd addysg i ferched yn brin iawn. O'r gwerthfawrogiad hwnnw o gwmnïaeth glòs yr ysgol Sul y tyfodd ymlyniad Eirlys hithau i'r ysgol Sul.

Mae **John Gwynn Jones** yntau'n aelod ffyddlon a gweithgar o fywyd Capel Seion ac ni fu unrhyw adeg nad oedd yn ymwneud â'r ysgol Sul. Bu yn ei dro yn athro ac yn arolygydd. Mae ei drylwyredd a'i ofal wrth baratoi yn nodwedd o'i arweiniad i'r dosbarth. Ef gyflwynodd hanes diweddar yr achos yng Nghapel Seion pan ddathlwyd 200 mlynedd sefydlu'r achos yno. Er bod ardal ei fagwraeth ym Mlaenpennal a Phen-uwch yn annwyl iddo, cartrefu a wnaeth, wedi priodi, yng Nghapel Seion. Fel llyfrgellydd teithiol yn y sir, mae ei adnabyddiaeth o'i phriffyrdd a'i lonydd culion yn rhyfeddol! Bu'n darlithio mewn cymdeithasau lleol ledled Ceredigion am hanes a diwylliant y fro.

Ni fu adeg pan nad oedd **Aeronwy Lewis** yn mynychu'r ysgol Sul yn ffyddlon. Wedi dechrau ar ei thaith yn Aberffrwd, Cwm Rheidol, symudodd Aeronwy i Benllwyn. Ac er iddi dreulio ychydig amser ym metropolis Aberystwyth, dychwelyd i harddwch Penllwyn a wnaeth. Bu Aeronwy yn aelod, yn gyd-drefnydd yr ysgol Sul, yn drysorydd yr ysgol Sul ac yn athrawes weithgar ym Mhenllwyn rhwng 1956 a 2022. Mae'n aelod ffyddlon yn y capel a chyfrannodd at redeg Clwb Hwyl Hwyr yn Ysgol Penllwyn am flynyddoedd.

Bu’n gweithio yng Nghanolfan y Fridfa Blanhigion Gymreig ac yn un o brif sylfaenwyr y Cylch Meithrin. Cyfrannodd hefyd i ddiwylliant ehangach y fro mewn partïon gwahanol ac i ddramâu byr yn y pentref.

Mae **Heulwen Lewis** wedi mynychu’r ysgol Sul ym Mhenllwyn ar hyd ei hoes, lle bu’n Arolygydd yr ysgol Sul ac yn athrawes am dros 50 mlynedd. Hi hefyd yw Ysgrifennydd Capel Penllwyn. Bu’n selog ei chefnogaeth i’r Gymanfa Ganu ac i Bwyllgor Plant ac Ieuenctid yr Henaduriaeth. Cyfrannodd i Glwb Hwyl Hwyr yr ysgol ac mae’n parhau i fod yn aelod o dîm Agor y Llyfr. Yn ogystal â magu ei theulu, bu Heulwen yn gweithio fel ysgrifenyddes yn Ysbyty Bronglais, yn cynorthwyo yn ysgolion Penllwyn a Phenweddig, ac yna yn adran Addysg y Cyngor Sir. Bu’n aelod ffyddlon o gôr Penrhyn-coch ac o gôr yr Eisteddfod Genedlaethol yn Aberystwyth. Mae ei gofal dros eraill a’i chymwynasgarwch yn adnabyddus i bawb a ddaeth i gysylltiad â hi.

Gwasanaethodd **Ina Tudno Williams** yr ysgol Sul yng Nghapel Seion am dros 40 mlynedd a hynny wedi iddi fod yn athrawes yn Seilo, Aberystwyth, am 10 mlynedd. Er iddi dreulio’i phlentyndod a’i hieuenctid yn ardaloedd Llangybi, Llanwrda a Llandybïe, ymgartrefodd yng Ngheredigion gan osod ei gwreiddiau’n ddwfn yn ardal y Paith. Fel ysgrifennydd y capel a threfnydd pregethwyr y Sul, ac fel un sydd wedi cyfrannu’n ehangach i Bwyllgor Plant ac Ieuenctid yr Henaduriaeth ac i Sasiwn Genhadol Chwiorydd y De, mae wedi gwneud cyfraniad helaeth a phwysig i fywyd Cristnogol y fro. Treuliodd ei gyrfa fel athrawes fro yng Ngheredigion ac yna fel darlithydd yn yr Adran Addysg yn y Brifysgol yn Aberystwyth. Gwasanaethodd hefyd fel Ynad Heddwch. Cyfrannodd yn helaeth i gorau a phartïon ac i gymdeithasau diwylliannol lleol.

Mae gan y **Parch. Ddr John Tudno Williams** gysylltiad ag ysgol Sul Seion ers dros 40 mlynedd. Ond nid am ei gyfraniad i Ysgol Sul Capel Seion yn unig y mae wedi ei enwebu i dderbyn medal. Roeddem am ei anrhydeddu am ei gyfraniad i ysgolion Sul ledled Cymru drwy ei esboniadau Beiblaidd, ei gyfraniad i’r dasg o gyfieithu’r Beibl Cymraeg Newydd a ddefnyddir gan eglwysi Cymru i gyd, ei gyfraniad i wybodaeth Feiblaidd drwy ei erthyglau niferus, a’i gyfraniad i addysg ddiwinyddol yng Nghymru. Treuliodd ei blentyndod a’i ieuenctid yn Lerpwl a Llundain. Wedi graddio yn Rhydychen dychwelodd i Gymru ac i Aberystwyth. Fe’i hordeiniwyd dros 60 mlynedd yn ôl yn 1963 a’i sefydlu’n weinidog yn y Borth.

Yno cafodd gyfle, gydag eraill, i sefydlu Ysgol Sul Undebol, oedd gyda'r gyntaf i gael ei sefydlu yng Nghymru. Dyfarnwyd gradd Doethur iddo am ei astudiaeth o gefndir Iddewig Efengyl Ioan. Yn 1966 dechreuodd ddysgu yn y Coleg Diwinyddol, coleg y daeth yn Brifathro arno rhwng 1998 a 2003. Gwasanaethodd Eglwys Bresbyteraidd Cymru ar bob lefel o'i threfniadaeth, gan ddod yn Llywydd y Gymdeithasfa yn y De, yn Llywydd y Gymanfa Gyffredinol, a chael ei ethol yn Llywydd Cyngor Eglwysi Cymru a Lloegr.

Llawenydd i bawb oedd yn y gynulleidfa oedd cael mynegi ein gwerthfawrogiad am gyfraniad pob un ohonynt yn hybu gwaith yr ysgol Sul yn y fro.

## Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion



Dydd Sul, 28 Ebrill, cynhaliwyd y Gymanfa Ganu flynyddol yng nghapel Bethel, Tal-y-bont.

Cyflwynwyd emynau'r bore gan blant ysgolion Sul y cylch, yn cynnwys plant ysgol Sul, Seion, Capel Seion. Hyfryd hefyd oedd cael cyfraniad gan deulu Hector Macdonald o'r Gaiman, Patagonia.

Llywydd y Gymanfa eleni oedd y Parch. Ddr Watcyn James, ac yn ogystal â llywio'r gweithrediadau, cafwyd dau gyflwyniad addas ac amserol ganddo. Yng nghyfarfod y bore, cyflwynodd stori'r ddau aeth i'r deml i weddïo mewn dull apelgar i'r plant. Ac yn ei anerchiad yn yr hwyr, tynnodd sylw at y cyfeiriadau niferus at ganu yn yr ysgrythur ac yn ein hemynau, a'i bwysigrwydd allweddol yn ein traddodiad mawl.

Arweinyddion y diwrnod oedd Mrs Helen Medi Williams a Mrs Delyth Hopkins Evans, a'r gyfeilyddes oedd Mrs Falyri Jenkins.

## Capel y Garn

## Gorffennaf

## Blaenor y mis: Alan Wynne Jones

| | |
|---|---|
| 2 | Pwyllgor Cymdeithas Lenyddol y Garn<br>Festri'r Garn am 7 o'r gloch |
| 7 | Oedfa dan arweiniad y Parch Athro John Tudno Williams<br>am 10 o'r gloch |
| 14 | Oedfa dan arweiniad y Gweinidog am 10 o'r gloch |
| 21 | Gwasanaeth Gollwng y Gweinidog<br>Capel y Garn am 10 o'r gloch<br>Cinio i ddilyn ym mwyty Crefftau Pennau |
| 28 | Oedfa dan arweiniad y Parch Judith Morris<br>am 10 o'r gloch |

## Awst

## Blaenor y mis: Gruffydd Aled Williams

| | |
|---|---|
| 4 | Oedfa yng Nghapel Noddfa<br>am 10 o'r gloch |
| 11 | Dim oedfa |
| 18 | Oedfa dan arweiniad y Fns Karen Owen<br>yng Nghapel Noddfa am 10 o'r gloch |
| 25 | Oedfa dan arweiniad Mr Lyndon Lloyd<br>am 10 o'r gloch |

## Gweddi mewn cyfnod o newid

Arglwydd Dduw, canmolwn di am bopeth a fuost i ni yn ein gorffennol.

Wrth edrych yn ôl ar hyd llwybrau ein gorffennol, gwelwn sut y buost yn ffyddlon i'th air a sut y daeth dy fendithion atom bob bore o'r newydd.

Unwaith eto, i ni fel gofalaeth, mae cyfnod o ansicrwydd ac aneglurder. Caniatâ i ninnau gael ein cadw rhag ofni'r amgylchiadau a ddaw i'n rhan, a hynny am ein bod yn parhau i orffwyso ynot.

Maddau i ni, drwy rinwedd concwest Iesu Grist ar y groes drosom, ein holl ddyledion, ein methiannau a'n gwendid, a bydd i ni yn arweinydd i'r dyfodol.

Arglwydd, yr ydym yn dyheu am dywalltiad o'th Ysbryd Glân i'n hadfywio ac i adfer ynom ysbryd o fawl ac o hyder ynot dy hun.

Yn wir, dysg ni i redeg ein gyrfa gan edrych bob amser ar Iesu fel tywysog, awdur a pherffeithydd ein ffydd.

Derbyn ein holl ddyheadau yn enw Iesu Grist, ein Harglwydd.

Amen.

Llongyfarchiadau calonnog
i Mrs Elina Davies, Llandre,
un o aelodau mwyaf ffyddlon y Garn,
a fydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed ar 5 Awst.

## Capel y Garn

## Medi

## Blaenor y mis: Marian Beech Hughes

| | |
|---|---|
| 1 | Oedfa dan arweiniad y Parch Wyn Morris<br>am 10 o'r gloch |
| 8 | Oedfa dan arweiniad y Parch Ifan Mason Davies<br>am 10 o'r gloch |
| 15 | Oedfa i'w threfnu<br>am 10 o'r gloch |
| 18 | Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro<br>Capel y Garn am 1.30 o'r gloch |
| 22 | Oedfa dan arweiniad y Parch. Richard Lewis<br>yng Nghapel Noddfa am 10 o'r gloch |
| 29 | Gwasanaeth Diolchgarwch dan ofal y Chwiorydd<br>a'r Fns Llinos Roberts, Cymorth Cristnogol,<br>am 10 o'r gloch |

**Capel y Garn – cydymdeimlo**

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf:

â theulu'r ddiweddar Eleri Elystan Hurt, a fu farw ar 13 Ebrill. Rydym yn meddwl yn arbennig am Ged, Catrin, ac Owain a'r teulu a chyfeillion;

â theulu'r ddiweddar Mary Thomas, Dolgelynen, a fu farw ar 16 Mai. Cofiwn yn arbennig am Philip, Owen, Mair a'u teuluoedd, ffrindiau a chymdogion.

**Gair o ddiolch** ar ôl gwasanaeth hyfryd yng Nghapel Seion nos Sul, 19 Mai, a'r croeso gan aelodau Seion yn ardderchog. Hoffwn ddatgan fy niolchgarwch gwresocaf i'r Parch. Aled Davies, Chwilog, a'r Cyngor Ysgolion Sul am drefnu noson arbennig ar ein cyfer. Diolch i'n Gweinidog, y Parch. Ddr Watcyn James, am ei waith yn trefnu'r digwyddiad ac am ei wasanaeth bendithiol, a hefyd am ein henwebu i dderbyn y Fedal Gee werthfawr hon. Diolch hefyd i Dr Rhidian Griffiths am ei eiriau caredig ac i Mr Alwyn Hughes am ei ddymuniadau da. Diolch i gyn-athrawon ac athrawon presennol yr ysgol Sul ym Mhenllwyn, a diolch hefyd i'm rhieni am ddangos y ffordd a'm harwain ym more oes. Dysgwn yn Llyfr y Diarhebion: 'Hyffordda blentyn ym mhen ei ffordd; a phan heneiddio nid ymedy â hi' (22:6). Dyna oedd ein gobaith ar hyd y blynyddoedd.

Pan ddaeth Mr Martin Davies a'i briod hawddgar i fyw i Benllwyn yn l955 ac yntau'n brifathro ar Ysgol Penllwyn, bu iddynt ymdaflu'n syth i waith yr eglwys. Bu Mr Davies yn athro ysgol Sul arnom ni yn ein harddegau, a byddai'n ein paratoi ar gyfer cwis blynyddol yr ysgol Sul. Byddai pob un ohonom wrth ein boddau yn ei ddosbarth niferus bob Sul – dylanwad na fyddem wedi ei golli am y byd. Un arall a fu'n ddylanwad bore oes oedd y diweddar Ddr Eifion Evans, gyda'i frwdfrydedd a'i sêl gadarn dros yr Efengyl. Bu iddo ein cludo i Gaerdydd un tro i gystadleuaeth gyn-derfynol cwis yr ysgol Sul ar y teledu, er mai colli a wnaethom y tro hwnnw hefyd.

Rhaid oedd eistedd arholiadau llafar yr ysgol Sul, ac yn ddiweddarach y rhai ysgrifenedig. Yn sgil hyn, fel gwobr, treuliais wythnos yn y Coleg Diwinyddol yn Aberystwyth yn Ysgol Haf yr Ysgol Sul, a gwneud ffrindiau oes o'r herwydd. Ymlaen wedyn i gymryd dosbarth yn y festri a'i theimlo'n fraint cael arwain y plant a'u dysgu am straeon y Beibl. A dangos iddynt gariad Crist tuag atynt yn y gobaith y rhoddai hyn sylfaen gadarn ac ymwybyddiaeth o werthoedd pwysig i'w bywydau.

Derbyniodd sawl aelod o Gapel Penllwyn y Fedal yn eu tro ac roeddent hwy, fel ninnau, yn gwerthfawrogi'r anrhydedd yn fawr ac yn diolch am gael rhan fechan yng nghenhadaeth yr Eglwys a'r ysgol Sul. Diolch i'r llu plant fu dan ein gofal ar hyd y blynyddoedd. Efallai mai hwy ddylai berchnogi'r medalau hyn am ein dioddef o Sul i Sul! Diolch am eu ffyddlondeb, a diolch i'r rhieni yn ogystal am eu cludo'n wythnosol yn ddirwgnach. Diolchwn i Dduw am ei ffyddlondeb, y cynnal fu arnom ar hyd yr amser, a'r fraint o gael hau'r had, a'r cyfan er gogoniant I Dduw, ac yng ngeiriau Elfed: 'Da yw bod wrth draed yr Iesu / Ym more oes; / Ni chawn neb fel Ef i'n dysgu / Ym more oes. / Dan ei groes mae ennill brwydrau / A gorchfygu temtasiynau; / Achos Crist yw'r achos gorau / Ar hyd ein hoes'.

*Heulwen Lewis*

## Gair o ddiolch – ac atgofion

Mae ymhell dros hanner canrif ers i ni symud o Aberffrwd lawr i Benllwyn – mynd o un ysgol Sul i'r llall. Ond ni feddyliais byth y byddwn yn derbyn medal rhyw ddydd. Ond braint yn wir ac anrhydedd oedd derbyn medal Gee, mewn gwasanaeth hyfryd yng Nghapel Seion ar ddiwrnod braf ym mis Mai, pan gyflwynwyd medalau i saith ohonom am ein ffyddlondeb i'r ysgol Sul. Clywais rywun yn ein galw yn 'The Magnificent Seven'! Mae'r diolch i'r Parch. Ddr Watcyn James am ei holl waith yn trefnu'r achlysur, a chael y medalau i ni ein saith, dwy ohonom o Benllwyn. Hefyd, diolch i'r Parch. Aled Davies am gyflwyno'r medalau, ac i bawb a wnaeth y gwasanaeth yn llwyddiant a mwynhad. Hyfryd hefyd oedd gweld cynulleidfa gref yn cefnogi.

Dechreuais ddysgu dosbarth Mr Eben Hughes yn ieuanc iawn mewn cornel bach digon cysurus – dwy fainc yn wynebu ei gilydd, yn y fan lle mae'r organ erbyn hyn. Cefais ddau neu dri Sul o *tuition* ganddo, credwch neu beidio. Dwi ddim yn siŵr ai'r plant oedd yn fy nysgu i, neu fi y nhw? Oherwydd, dim ond rhyw flwyddyn neu ddwy oedd rhyngom. Ond, diolch byth, pwy ddaeth i fyw i'r ardal? Neb llai na Mr Martin Davies (tad Delyth) a daeth yn fuan iawn i'r ysgol Sul, a chafwyd *reshuffle* – do, yn wir. Cymerodd ef y dosbarth hŷn, a chefais innau'r plant bach, oddi wrth Mrs Megan Morgan (mam Heulwen).

Ymhen amser, priodais a chael fflat yn y dre, yn Roseville, sef Tŷ Barclay erbyn hyn. Ond cyn pen dim, prynu tŷ, a daethom yn ôl i Blaengeuffordd.

Cofiaf yn glir, yn fuan iawn, y ddiweddar Mrs Anne Davies (mam Delyth) wrth ein drws, yn gofyn imi ddod yn ôl, i ddysgu'r plant lleiaf. Sut allwn i ddweud 'Na'? A threulio llawer blwyddyn hapus yn eu dysgu am fywyd Iesu. Llafur cariad ydoedd. Ond, rhaid cyfaddef, roedd adegau y buaswn wedi hoffi cael Sul i ffwrdd. Bu amseroedd pan nad oedd yr un Sul yn rhydd, hyd yn oed gwyliau'r ysgol ddyddiol. Ond, o dipyn i beth, flynyddoedd wedyn, newidiwyd y drefen. Bu'r Suliau'n rhai hapus iawn yn y festri fach, ac rwy'n falch dros ben o gael y fedal i gofio hynny. Gwnaf ei thrysori am weddill fy oes.

*Aeronwy Lewis*

## Rehoboth

**Cydymdeimlo**

Tristwch i aelodau Rehoboth, Taliesin, oedd clywed am farwolaeth Mai Leeding ar 16 Mai 2024. Bu'n aelod ffyddlon o'r capel ac yn gofalu am sicrhau bod pregethwyr yn dod i arwain oedfaon yn y capel am nifer o flynyddoedd.

Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant â'i phlant, Lowri, Maldwyn a Rhun, yn y brofedigaeth a ddaeth i'w rhan.

## Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth

Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod yn festri Rehoboth brynhawn Mawrth, 12 Mawrth. Yn absenoldeb y siaradwr gwadd oherwydd salwch, daeth saith o'r aelodau â rhywbeth oedd yn annwyl ganddynt i'r cyfarfod gan ddweud ychydig eiriau amdano ac egluro pam roeddent mor hoff ohono.

Ymhlith yr eitemau a ddangoswyd yr oedd modrwy a gafwyd yn anrheg gan hen wraig; tair dol fach hynafol, llestr bychan wedi ei wneud o goeden *bog oak*; a cherdyn marwolaeth milwr a laddwyd ym mrwydr Mametz Wood yn 1916. Roedd yna hefyd dyddiadur am y flwyddyn 1905, a phwysau a ddefnyddid ar glorian mewn siop, yn ogystal â cherdyn Nadolig a bostiwyd yn Llundain yn 1936 gyda stamp y Brenin Edward VII ar yr amlen. I gwblhau'r casgliad yr oedd medal a enillwyd mewn gêm bêl-droed yn 1933, darn o frodwaith, llun Cwmni Drama Bethesda 1921, a lliain bwrdd wedi ei grosio gan hen fodryb.

Cytunodd pawb i ni gael prynhawn pleserus iawn, ac yna mwynhawyd y te a baratowyd gan Mona Rowlands gyda chymorth Non Griffiths.

Cyfarfu'r aelodau yng nghaffi Poppy's brynhawn Mawrth, 9 Ebrill, i fwynhau te prynhawn i gloi tymor Cymdeithas y Chwiorydd am eleni. Estynnwyd croeso i bawb gan Meinir Fleming, a chafwyd prynhawn dymunol iawn wrth fwynhau'r bwyd a sgwrsio gyda'n gilydd.

*Carys Briddon*

# Bedydd yn Rehoboth

Cafwyd bore o ddathlu llawen yng Nghapel Rehoboth, Taliesin, ddydd Sul, 7 Ebrill 2024, pan gynhaliwyd gwasanaeth bedydd Idris Edwin Bennet Jenkins. Mae Idris yn fab i Eifion a Sarah Jenkins, Wileirog, ac yn frawd i Elinor, Leusa a Menna. Llongyfarchwn y teulu a dymunwn fendith Duw arnynt i'r dyfodol.





Chwiorydd Rehoboth yn mwynhau te prynhawn
yng nghaffi Poppy's

## Wythnos Cymorth Cristnogol

Bore Sul, 12 Mai, cynhaliwyd oedfa arbennig yng Nghapel y Garn i nodi dechrau Wythnos Cymorth Cristnogol.

Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan aelodau'r Garn a chapel Noddfa, a dilynwyd hanes Aline o Burundi, a'r gwahaniaeth a wnaeth gwaith partneriaid Cymorth Cristnogol i'w bywyd. Cafodd ei cham-drin a bu'n byw mewn tlodi enbyd, ond gyda chymorth benthyciad gan Gymdeithas Gynilo Gymunedol, llwyddodd i sefydlu busnes bach i'w chynnal ei hun a'i meibion.

Yn dilyn yr oedfa, cafwyd cyfle pellach i gymdeithasu a chyfrannu at ein casgliad tuag at Gymorth Cristnogol dros ginio bara a chaws yn y festri – diolch i Shân, Margaret, Liz, Kathleen a Meinir am ofalu am y llluniaeth.



Cinio Bara a Chaws yn festri'r Garn yn dilyn gwasanaeth
Wythnos Cymorth Cristnogol



# Cyfieithu

Amryw o weithiau yn ystod ein trafodaethau yn y gyfres ‘Gwreiddiau’ dan arweiniad ein Bugail ar foreau Iau gwnaed sylwadau gan yr aelodau ynglŷn â dilysrwydd cyfieithiad ambell gymal neu air mewn adnod a ddaethai dan ystyriaeth. Yn amlach na pheidio, cymharwyd cyfieithiad cyfarwydd Beibl William Morgan (neu, a bod yn fwy cywir, diwygiad Dr John Davies a’r Esgob Richard Parry ohono a gyhoeddwyd yn 1620: BC o hyn ymlaen) â’r Beibl Cymraeg Newydd (BCN).

Yn y nodyn hwn carwn drafod ymhellach ymholiad a wnaethpwyd beth amser yn ôl ynglŷn â chymal yng Ngweddi’r Arglwydd, sef ‘eithr gwared ni rhag drwg’ (Mathew 6:13). Yn BCN ceir: ‘ond gwared ni rhag yr Un drwg’, gyda’r cyfieithiad arall posibl ‘rhag y drwg’ wedi’i nodi ar waelod y ddalen. Yr un testun Groeg sy’n sail i’r ddau gyfieithiad ac mae’r ddau yn hollol gywir, er, efallai, y dylid tynnu sylw at y ffaith i BC hepgor y fannod sydd o flaen yr enw ‘drwg’ yn y testun Groeg. Felly hefyd yr Authorized Version Saesneg (AV, 1611): ‘but deliver us from evil’.

Ar y pryd fe geisiais egluro’r sefyllfa destunol a dweud bod y ddau gyfieithiad yn dderbyniol, gan ychwanegu mod i’n credu mai’r cyfieithiad modern yw’r un mwyaf cywir. Ond ni chredaf imi lwyr argyhoeddi fy nghyd-aelodau o’r grŵp trafod gyda’m sylwadau. Caniateir imi, felly, ymhelaethu ychydig ar yr hyn a ddatgenais eisoes.

Mae’r drafodaeth hon ynglŷn â’r ffordd gywir o fynegi’r hyn a fwriadai Iesu wrth gyflwyno inni’r patrwm arbennig hwn o weddi, ac yn arbennig y cymal hwn, yn ymestyn yn ôl i ganrifoedd cynnar Cred. Mae’n debyg mai Awstin o Hippo yng ngogledd Affrica (bu farw yn 430) oedd y cyntaf i gyfieithu’r cymal fel ‘gwared ni rhag drwg’. Arhosodd ei ddylanwad yn y mater hwn, fel mewn nifer o achosion pwysig eraill yn hanes diwinyddiaeth Gristnogol, e.e. ar fater y pechod gwreiddiol, yn allweddol ar hyd y canrifoedd hyd yr oes fodern. Yna, yn 1884 cyhoeddwyd y Revised Version Saesneg (RV), sef diwygiad o’r AV yng ngoleuni llawer mwy o ddeunydd testunol a oedd yn llawer hŷn a gwell na’r testunau y dibynnai cyfieithwyr bum canrif yn ôl arnynt.

Ailgyneuwyd y ddadl am y cyfieithiad o'r cymal dan sylw yr adeg honno. 'From the evil one' oedd dewis RV, a dyna hefyd a geir yn y rhan fwyaf o'r cyfieithiadau modern Saesneg ers hynny: e.e. New Revised Standard Version, New International Version, a'r Revised English Bible. Ond 'from evil' sydd yn yr English Standard Version a ymddengys ochr yn ochr â Thestament Newydd BCN yn y cyhoeddiad dwyieithog a gyhoeddwyd yn 2006.

Dylid ychwanegu mai 'rhag yr Un drwg' a geid yn y mwyafrif o'r Tadau Eglwysig cynnar hefyd. At hynny, gellir dangos mai hyn sy'n gweddu orau i ddefnydd arferol Mathew o'r gair 'drwg'. Gweler 5:37: 'beth bynnag sy'n ychwanegol at hyn, o'r Un drwg y mae'. Sylwer mai 'o'r drwg y mae' sydd yn BC, ac yn 5:39 ceir 'peidiwch â gwrthsefyll y sawl sy'n gwneud drwg i chwi'. Cyfieithiwyd hyn yn gwbl lythrennol yn BC: 'Na wrthwynebwch ddrwg'. Eto, yn Nameg yr Heuwr disgrifir 'yr Un drwg' yn 'cipio'r hyn a heuwyd yn ei galon' (13:19). Sylwer eto ar gyndynrwydd cyfieithwyr BC i bersonoli drygioni: 'y mae y drwg yn dyfod' a geir ynddo: cymharer AV: 'then cometh the wicked one'.

Yna, yn yr eglurhad ar Ddameg yr Efrau sonnir am 'blant yr Un drwg' (13:38) yn BCN yn hytrach na 'plant y drwg' (BC); cymharer eto AV: 'the children of the wicked one'. Diddorol yw sylwi mai 'y Drwc' sydd gan William Salesbury yn adnodau 19 a 38, gan felly bersonoli'r drwg. Priodol yw cyfeirio hefyd at Ioan 17:15, sef rhan o'r hyn a elwir yn draddodiadol yn 'Weddi Archoffeiriadol Iesu': 'Nid wyf yn gweddïo ar i ti eu cymryd allan o'r byd, ond ar i ti eu cadw'n ddiogel rhag yr Un drwg'; cymharer BC: 'rhag y drwg'.

Pwynt arall sy'n ategu'r cyfieithiadau cyfoes yw ergyd y ferf 'gwaredu' sy'n cyfleu'r dyhead am gael ein rhyddhau o afael pŵer personol yn hytrach nag o sylwedd haniaethol.

Hyderaf y bydd y nodyn hwn yn gymorth i'r sawl sy'n dal i gofleidio'r hen gyfieithiad i ailystyried ac i ddod yn fwy cyffyrddus gyda'r cyfieithiad Cymraeg newydd yn yr achos arbennig hwn.

*John Tudno Williams*

## Gwreiddiau



Bore Iau, 25 Ebrill, daeth tymor trafodaethau'r grŵp Gwreiddiau i ben, gyda'r aelodau'n cyfarfod yn festri'r Garn a dros Zoom. Mae ein diolch yn ddiffuant i'n Gweinidog am ei waith trylwyr yn paratoi ar gyfer y sesiynau gwerthfawr hyn ac am ein harwain eleni drwy un o'r salmau mwyaf adnabyddus, sef Salm 23 – 'Salm y Bugail'. Braf fu'r trafod a'r cwestiynu mewn awyrgylch ymholgar a chyfeillgar.

Diolch hefyd i Nans am ofalu am y baned ar ein cyfer ac am drefnu cacen i nodi diwedd ein gweithgareddau.

**Swyddogion yr Ofalaeth**
Cadeirydd: Alwyn Hughes, Madog
Ysgrifennydd: Gruffydd Aled Williams,
Bronafon, Dolau, Bow Street, Aberystwyth, Ceredigion, SY24 5AE
(ffôn: 01970 820664; ebost: gawilliams1@btinternet.com)
Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **9 Medi** i'r golygydd:
Marian B Hughes, 14 Maes y Garn, Bow Street
01970 828662; marian_hughes@btinternet.com